# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## 10 RHAGFYR 2020

| |
|---|
| **ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Cymeradwyo diweddariadau'r isod:**<br>• **Datganiad Credoau**<br>• **Matrics Llywodraethu** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Cymeradwyodd y CBLl y Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu presennol ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r ddwy ddogfen yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r ddwy wedi cael eu hadolygu gan y Gweithgor Swyddogion ac mae'r diwygiadau angen eu cymeradwyo gan y CBLl. |



| | | |
|---|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Chris Moore** | **Swydd:**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **Rhif Ffôn: 01267 224160**<br><br>**E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

# 10 RHAGFYR 2020

## ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun dros y 15 mis diwethaf sydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gellir gweld y rhain ar wefan y Bartneriaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd y CBLl y Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Gweithgor Swyddogion (GS) wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r ddwy ddogfen hyn.

Datganiad Credoau – mae'r ddogfen hon wedi cael ei hadolygu gan y GS a gwnaed diwygiad bach i bwynt bwled rhif 4 drwy ychwanegu Risg Hinsawdd at y frawddeg bresennol.

Matrics Llywodraethu – mae'r matrics hwn wedi cael ei adolygu'n drylwyr a gwnaed nifer o ddiwygiadau er mwyn ei alinio ymhellach â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau gyda chamau gweithredu newydd yn cael eu hychwanegu a chamau gweithredu presennol yn cael eu hymestyn, gan gynnwys:

- Diwygio neu Derfynu'r CRhA (newydd)
- Derbyn Awdurdod CPLlC newydd i'r Bartneriaeth (newydd)
- Cymeradwyo cyllideb (gan gynnwys gwariant ychwanegol sy'n fwy na 30% o'r gyllideb gymeradwy) a gofynion adnoddau – fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Busnes y Bartneriaeth (wedi'i ymestyn i gynnwys yr elfen gwariant ychwanegol)
- Penodi, terfynu neu amnewid y Gweithredwr (gan gynnwys gwerthusiad caffael neu feini prawf sgorio, contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth) (wedi'i ymestyn i gynnwys terfynu ac amnewid)
- Llunio Datganiad Blynyddol y Bartneriaeth

Mae sawl newid arall hefyd wedi cael eu gwneud a bydd y rhain yn cael eu harchwilio ymhellach yn y CBLl.

Os cânt eu cymeradwyo, bydd y ddwy ddogfen yn cael eu diweddaru ar wefan y Bartneriaeth.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br><br>**DIM** | Cyllid<br><br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br><br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br><br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu yn ddogfennau ffurfiol Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |